BBC Trust Ymddiriedolaeth



# CYMRU

## AROLWG Y CYNGOR CYNULLEIDFA

2011/12

01 Rhagair yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol
02 Gweithgaredd y Cyngor Cynulleidfa yn ystod y flwyddyn
04 Adroddiad Cyngor Cynulleidfa Cymru ar Berfformiad y BBC yng Nghymru
11 Perfformiad yn erbyn Pwrpasau Cyhoeddus y BBC
16 Blaenoriaethau Cynulleidfa ar gyfer 2012/13
18 Cyngor Cynulleidfa Cymru
19 Cysylltu

**Llun y clawr**
Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn un o'i chyngherddau ar gyfer ysgolion arbennig.

# RHAGAIR YR YMDDIRIEDOLWR CENEDLAETHOL



"Adeiladwyd canolfan cynhyrchu drama ym Mhorth y Rhâth, Bae Caerdydd, ar amser ac o fewn ei chyllideb, a bu yn fodd i roi cartref newydd i *Pobol y Cwm*, *Casualty* a *Doctor Who*."


Mae Cynghorau Cynulleidfa'r BBC yn cynghori Ymddiriedolaeth y BBC ynglŷn â pha mor dda y mae'r BBC yn cyflawni ei Phwrpasau Cyhoeddus a sut y gwasanaethir y rhai sy'n talu Ffi'r Drwydded ar draws y DU. Er mwyn deall barn y cyhoedd mae Cyngor Cynulleidfa Cymru yn cynnal cyfarfodydd gyda chynulleidfaoedd led-led Cymru, er mwyn cael clywed am y pethau sy'n bwysig iddynt hwy a chynghori'r Ymddiriedolaeth ynghylch materion o gonsýrn.

Un mater o bwys i gynulleidfaoedd, sydd wedi ei godi ers blynyddoedd lawer, ac y bu'r Cyngor yn codi llais arno ers tro, yw argaeledd gwasanaethau ar draws Cymru, yn enwedig darpariaeth Radio Cymru ar DAB a BBC Radio Wales ar FM a DAB. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd y ddarpariaeth FM yn ehangu yn ne ddwyrain Cymru a chyhoeddwyd bod mast DAB masnachol newydd i'w godi yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Croesewir hyn yn wresog gan gynulleidfaoedd.

Adeiladwyd canolfan cynhyrchu drama ym Mhorth y Rhâth, Bae Caerdydd, ar amser ac o fewn ei chyllideb, a bu yn fodd i roi cartref newydd i *Pobol y Cwm*, *Casualty* a *Doctor Who*. Gall fod yn fodd i roi hwb sylweddol i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth San Steffan fod S4C i'w chyllido o Ffi'r Drwydded o 2013 ymlaen rwy'n croesawu'n wresog y cytundeb newydd gyda S4C ac yn edrych ymlaen at weld y BBC ac S4C yn manteisio ar gyfleoedd pellach ar gyfer cyd-weithio er budd creadigol, cymdeithasol, addysgiadol ac economaidd cynulleidfaoedd yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw gwelsom ymadawiad Keith Jones fel Cyfarwyddwr BBC Cymru Wales a phenodiad Rhodri Talfan Davies i'r swydd. Rwy'n ddiolchgar i Keith am ei gefnogaeth sylweddol i waith Cyngor Cynulleidfa Cymru a'i gyfraniad i BBC Cymru Wales dros flynyddoedd lawer. Rwy'n croesawu penodiad Rhodri yn fawr ac edrychaf ymlaen at weithio'n agos gydag ef yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Tra bod mwy nag un her yn wynebu'r BBC, yn enwedig felly y toriadau ariannol diweddar sy'n cynrychioli her sylweddol i'r cenhedloedd a'r rhanbarthau, mae'r Cyngor yn parhau i fynegi a phwysleisio'n ddeheuig ofidiau a dyheadau cynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru.



**Elan Closs Stephens**

Ymddiriedolwr Cenedlaethol Cymru a Chadeirydd Cyngor Cynulleidfa Cymru

# GWEITHGAREDD Y CYNGOR CYNULLEIDFA TRWY'R FLWYDDYN

Rhydd Siarter Frenhinol y BBC y cyfrifoldeb i'r Cyngor Cynulleidfa gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i Ymddiriedolaeth y BBC ar berfformiad y BBC wrth hyrwyddo ei Phwrpasau Cyhoeddus yng Nghymru a chynnig cyngor i'r Ymddiriedolaeth ar faterion y tynnir ei sylw atynt gan y gynulleidfa.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw (Ebrill 2011 – Mawrth 2012) cyfarfu CCC saith gwaith mewn lleoliadau ledled Cymru. Bu'r Cyngor yn trafod strategaeth gydag uwch staff y BBC yng Nghymru a thu hwnt yn ogystal ag allbwn ar radio, teledu ac ar-lein. Bu'r Cyngor yn ystyried rhaglenni Cymraeg a Saesneg, problemau dosbarthu, Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol, Chwaraeon, Newyddion a Materion Cyfoes y BBC, allbwn ar lefel Rhwydwaith a chenedlaethol, BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales, perthynas y BBC gydag S4C yn y dyfodol, *Darparu Ansawdd yn Gyntaf* (DAG) a Strategaeth Amrywiaeth y BBC.

Cyfrannodd y Cyngor at ymgynghoriad Ymddiriedolaeth y BBC ar DAG, Arolwg Gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth o BBC Radio 5 Live, BBC Parliament a BBC News Channel, BBC Asian Network a Pholisi Syndicetio y BBC a gwnaeth gyfraniad sylweddol at Arolwg Gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth o radio Cenhedloedd y BBC gan ganolbwyntio ar orsafoedd radio cenedlaethol Cymru, BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales. Argymhellodd y Cyngor y dylai'r Ymddiriedolaeth gymeradwyo Cynllun Rhaglenni 2012/13 y BBC ar gyfer S4C, a gwyliodd y datblygiadau am ddyfodol S4C yn agos yn dilyn argymhellion Llywodraeth San Steffan y dylid cyllido S4C yn bennaf o Ffi Drwydded y BBC o 2013 ymlaen.

1



2



Cynhaliodd y Cyngor ddeg digwyddiad atebolrwydd yn ystod y flwyddyn – yn Nyffryn Nantlle; gyda Fforwm Menywod Chwarae Teg; gydag aelodau Materion Cyhoeddus Cymru yn dilyn etholiadau mis Mai i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; yn yr Wyddgrug; gyda myfyrwyr o Brifysgol Glyndŵr Wrecsam; gydag aelodau o'r gymuned sipsiwn a theithwyr yng ngogledd-ddwyrain Cymru; gyda llunwyr barn o bob cwr o Gymru; gyda Mwslemiaid ifanc yng Nghaerdydd; ac yn Ferndale. Bwydodd y sylwadau a gafwyd oddi wrth gynulleidfaoedd yn ystod y digwyddiadau hyn i gyflwyniadau'r Cyngor i'r ymgynghoriadau uchod ac at lunio Blaenoriaethau Cynulleidfa'r Cyngor ar gyfer 2012/13.

Roedd y materion a godwyd yn y digwyddiadau hyn yn cynnwys pryderon nad oedd gorsafoedd radio cenedlaethol Cymru, BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales, ar gael ar DAB mewn rhannau helaeth o Gymru. Mynegwyd amheuaeth hefyd am y pwyslais ar ddarlledu Diffiniad Uchel (HD) ac roedd nifer o gyfranogwyr yn ei ystyried yn 'eliffant gwyn' drud. Mynegwyd pryder neilltuol am y posibilrwydd y gallai BBC Two HD gael ei lansio heb raglenni penodol i Gymru gan BBC Cymru. Codwyd y mater o bortreadu Cymru ar radio a theledu Rhwydwaith hefyd sawl gwaith, a'r cyfranogwyr yn pwysleisio bod eu mwynhad o raglenni teledu yn cael ei gyfoethogi trwy weld sefyllfaoedd a lleoliadau cyfarwydd. Mynegwyd pryder am effaith posibl cynigion DAG ar ddarlledu chwaraeon a mynegwyd pryder arbennig y gallai chwaraeon proffil is gael eu taro'n anghymesur o galed.

3



1. Bu i gyfres nodedig *The Story of Wales* ddylanwadu ar ddarllediadau hyrwyddo chwaraeon BBC Cymru hyd yn oed!
2. Diwrnod cerddoriaeth BBC Radio Wales – Frank Hennessey.
3. Ceri Stradling aelod o Gyngor Cynulleidfa Cymru yn un o ddigwyddiadau estyn allan y CCC gyda myfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr.

# ADRODDIAD CYNGOR CYNULLEIDFA CYMRU AR BERFFORMIAD Y BBC YNG NGHYMRU 2011/12

## Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn dan sylw derbyniodd CCC gyflwyniadau gan Gyfarwyddwr BBC Cymru Wales ac uwch reolwyr o Gymru a thu hwnt ar sut yr oedd y BBC yn gyffredinol yn perfformio yng Nghymru ac yn cyflawni Pwrpasau Cyhoeddus y BBC.

Gan ddefnyddio fframwaith Cyrhaeddiad, Effaith, Ansawdd, a Gwerth am Arian (RQIV) Ymddiriedolaeth y BBC i asesu perfformiad, nododd y Cyngor bod cyrhaeddiad wythnosol holl deledu'r BBC yng Nghymru wedi cynyddu i 89% (BARB) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bod cyrhaeddiad holl raglenni teledu BBC Cymru yng Nghymru wedi aros yn gyson yn ystod 2011/12 gyda chyrhaeddiad wythnosol o bron i 1 miliwn (cyrhaeddiad 15 munud), ac ar y blaen i gyfran y Rhwydwaith. Roedd y Cyngor wedi'i galonogi bod dros hanner yr holl oedolion yng Nghymru, 1.4 miliwn o wylwyr (cyrhaeddiad 3 munud), yn gweld o leiaf un o fwletinau *BBC Wales Today* bob wythnos, a bod cyrhaeddiad BBC Radio Wales wedi aros ar tua'r un lefel. Roedd y Cyngor wedi'i galonogi bod y BBC wedi sgorio'n gryf ar Ansawdd, a chymeradwyaeth o'r Gorfforaeth yng Nghymru yn para ar 7.14. Roedd ansawdd allbwn BBC Cymru Wales yng Nghymru yn para'n uchel gyda'r cyfartaledd lefel gwerthfawrogiad cynulleidfa wedi cynyddu o 77 i 84 ers 2006 (gan berfformio'n well na'r duedd cyffredinol am i fyny yn y gwerthfawrogiad o raglenni'r BBC).

Ond, roedd yr arbedion ariannol parhaus yn fater o bryder. Dywedodd cynulleidfaoedd wrth y Cyngor eu bod yn teimlo bod nifer y rhaglenni teledu Saesneg oedd yn cael eu cynhyrchu gan BBC Cymru Wales ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru yn isel ac y gallai arbedion pellach ddwysáu'r sefyllfa ynteu effeithio ar ansawdd. Roedd y Cyngor yn fodlon bod y BBC yn parhau i gael effaith sylweddol yng Nghymru gyda'r gyfres bwysig ddiweddar, *The Story of Wales*, a gynhyrchwyd mewn partneriaeth gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru, yn denu cynulleidfa o 412,000 ar gyfer y bennod agoriadol.

1



1. Cyflwynydd *The Story of Wales*, Huw Edwards..
2. Ymddiriedolwr Cenedlaethol Cymru y BBC yn un o ddigwyddiadau estyn allan y CCC.

Yn seiliedig ar ei ymwneud â chynulleidfaoedd a data gan reolwyr y BBC a'r Ymddiriedolaeth, daeth Cyngor Cynulleidfa Cymru i'r casgliad bod allbwn y BBC yn ystod 2011/12, ar y cyfan, wedi diwallu ei gyfrifoldebau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg ar draws pob platfform ac wedi cyfrannu yn sylweddol at gyflawni Pwrpasau'r BBC.

## Arolwg Cyngor Cynulleidfa Cymru o berfformiad yn erbyn blaenoriaethau cynulleidfaoedd yn 2011/12

Mae'r adrannau coch isod yn dynodi blaenoriaethau'r gynulleidfa a osodwyd gan CCC ar gyfer 2011/12 tra bod y paragraffau o dan pob adran goch yn rhoi asesiad y Cyngor o'r cynnydd yn erbyn pob blaenoriaeth.

### Cyffredinolrwydd Argaeledd

Roedd y Cyngor yn bryderus ynglŷn â'r ffaith nad yw rhai cynulleidfaoedd yn gallu derbyn gwasanaethau'r BBC, yn enwedig ar rai platfformau digidol. Roedd pryderon neilltuol am ansawdd ac argaeledd DAB. Hoffai'r Cyngor hefyd weld strategaeth glir ar gyfer y DU gyfan ar gyflwyno rhaglenni Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr ar HD.

Mynegodd CCC bryder mai dim ond lleiafrif – 40% o'r boblogaeth – sydd yn gallu derbyn BBC Radio Cymru neu BBC Radio Wales ar DAB, er gwaethaf dyfodiad trosglwyddyddion DAB newydd ychwanegol ar gyfer gwasanaethau'r Rhwydwaith. Ni all 70% o siaradwyr Cymraeg dderbyn BBC Radio Cymru ar DAB.

Mae gwaith estyn allan CCC yn dangos bod cwestiynau mawr gan aelodau'r gynulleidfa ynglŷn â DAB ac a ddylai'r BBC fod yn hyrwyddo hyn pan nad yw'r sector fasnachol yn ymateb i gais y Llywodraeth i ehangu'r rhwydwaith.

Dylai unrhyw drafodaeth ynghylch cyflawni Pwrpasau'r BBC yng Nghymru ystyried yr anghyfartaledd o ran mynediad i wasanaethau'r BBC. Mae gan ddiffyg mynediad effaith enfawr ar allu'r BBC i gyflawni'r Pwrpasau Cyhoeddus hyn yn effeithiol.

Mae CCC yn croesawu'n fawr y cynydd a welwyd yn ystod y cyfnod dan sylw o argaeledd BBC Radio Wales ar FM i 80% o boblogaeth Cymru. Mae'r Cyngor yn parhau'n bryderus ynghylch y diffyg cynnydd yn argaeledd BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales ar DAB.

### Cynnal Dinasyddiaeth a Chymdeithas Sifil

Mae'r Cyngor yn credu y dylai bod gan y BBC rôl amlycach wrth hwyluso trafodaeth gyhoeddus, gan ddarparu sylwebaeth mewn ffordd wybodus ar bynciau o bob rhan o'r DU yn ogystal â dyfnhau ac ehangu adroddiadau rhyngwladol.

2



Mae Cyngor Cynulleidfa Cymru yn croesawu'r cynnydd sylweddol a wnaethpwyd gan Newyddion Rhwydwaith o ran adrodd newyddion ar draws y DU yn dilyn Adroddiad Amhleidioldeb yr Ymddiriedolaeth am adrodd ar faterion datganoledig. Ond mae'n credu bod cryn dipyn o ffordd i fynd eto hyd nes bydd adroddiadau ar y cenhedloedd datganoledig ar holl raglenni Rhwydwaith y BBC yn diwallu'r safonau cywirdeb ac ansawdd a ddisgwylir gan y BBC. Ar hyn o bryd nid yw'r cyfle i gyfoethogi rhaglenni ymhellach trwy gymariaethau polisi o gwmpas y DU yn cael ei gymryd i'w lawn botensial.

Mae CCC yn croesawu'r datganiad a wnaed gan Gyfarwyddwr Newyddion y BBC ei bod yn llwyr ymwybodol o'r angen ac o'r cyfle sydd yn bodoli ar gyfer cyfoethogi newyddion Rhwydwaith gyda chymariaethau polisi ar draws y DU. Mae'n derbyn bod cryn dipyn o'r agenda newyddion yn ystod y cyfnod dan sylw yn drwm gyda newyddion tramor – yn enwedig y darllediadau ynghylch y 'Gwanwyn Arabaidd'. Eto i gyd bydd CCC yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn yn ystod y flwyddyn i ddod.

### Hyrwyddo Addysg a dysgu

Mae'r Cyngor yn croesawu strategaeth y BBC ar gyfer dysgu ffurfiol ac anffurfiol, ac yn edrych ymlaen at ddeall rhagor am sut y bydd yn effeithio ar gynulleidfaoedd amrywiol megis cynulleidfaoedd hŷn, y rhai nad ydynt mewn gwaith, neu ddysgwyr yn y cenhedloedd datganoledig lle mae amgylchiadau yn amrywio.

Mae CCC wedi croesawu'n fawr iawn rhyddhau yn ystod y flwyddyn dan sylw ddeunyddiau addysgiadol yn Gymraeg, Gwyddeleg a Gaeleg a ddechreuwyd fel rhan o'r gwasanaeth BBC Jam, sydd bellach wedi hen ddirwyn i ben. Mae wedi clywed yn gyson am y gwerth y mae cynulleidfaoedd yng Nghymru yn ei roi ar ddeunydd addysgiadol ar-lein o'r fath.

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae'r oriau o raglenni Saesneg a gynhyrchwyd yng Nghymru gan BBC Cymru ar gyfer Cymru wedi gostwng o 824 awr (324 o ran rhaglenni cyffredinol) yn 2005 i 696 awr yn 2009 (276 o ran rhaglenni cyffredinol). Mae CCC yn credu bod y gostyngiad o ran oriau a gwariant yn fater o bryder a gofid, yn enwedig yng nghyd-destun Adroddiad Marchnad



1. Ruth Marks, Aelod o Gyngor Cynulleidfa Cymru yn ystod cyfarfod estyn allan yn yr Wyddgrug.
2. Suma Pugh, aelod o Gyngor Cynulleidfa Cymru yn ystod digwyddiad estyn allan yn yr Wyddgrug

Cymru Ofcom 2010 a oedd yn dangos bod y gostyngiad cyffredinol (yn cynnwys allbwn y BBC ac ITV) yn 16% a bod gwariant wedi gostwng 44% drwyddi draw dros 5 blynedd.

Mae'r Cyngor wedi bod yn bryderus ynghylch y datblygiadau diweddar o ran teledu Cymraeg ac yn pryderu y bydd cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith yn dioddef yn dilyn cyhoeddiadau diweddar. Mae'n chwilio am ymrwymiad o'r newydd oddi wrth y BBC i sicrhau bod y gynulleidfa Gymraeg ei hiaith yn derbyn gwasnaeth teledu darlledu cyhoeddus cyflawn ar bob platfform ar draws pob genre ac o'r safon uchaf.

Mae CCC yn credu ei bod yn hanfodol diogelu a chryfhau'r gwasanaethau craidd sydd wedi'u hanelu'n benodol at Gymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae CCC yn croesawu'n fawr y cytundeb a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rhwng y BBC ac S4C ar drefniadau ar gyfer cyllido'r sianel o Ffi'r Drwydded yn y dyfodol, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth San Steffan yn 2010. Mae'r Cyngor yn nodi bod BBC Cymru Wales yn mynd i wynebu 16% o doriad yn ei chyllideb – yn hytrach na'r ffigur cyffredinol o 20% – yn sgîl gweithredu argymhellion DAG. Er hyn, mae'n ymwybodol iawn o ofidiau cynulleidfaoedd y gallai toriadau o'r fath, yn syth wedi arbedion *Gwelliannau Parhaus* y 5 mlynedd blaenorol, gael effaith andwyol posib ar wasanaethau BBC Cymru - a'r effaith ar y ddwy orsaf radio genedlaethol, a rhaglenni teledu Saesneg o Gymru ar gyfer Cymru o bryder neilltuol.

## Dod â'r Byd i sylw'r DU a'r DU i sylw'r Byd

Dywed cynulleidfaoedd wrth y Cyngor nad yw amrediad newyddion rhyngwladol yn ddigon amrywiol, gyda'i ogwydd gref ar y Rhwydwaith tuag at yr Unol Daleithiau ac mae teimlad nad oes fawr ddim sylw i weddill Ewrop. Am y rheswm hwn mae aelodau'r gynulleidfa yn gwerthfawrogi'n fawr iawn y persbectif gwahanol a ddarperir gan Wasanaeth Byd y BBC. Mae yna deimlad y dylai'r BBC fod yn hwyluso'r ddadl a chynorthwyo cynulleidfaoedd i ddeall safbwyntiau gwahanol.

Mae CCC wedi croesawu darllediadau'r BBC o ddigwyddiadau'n gysylltiedig gyda gwrthryfeloedd y 'Gwanwyn Arabaidd' a'r darllediadau cyson am ddigwyddiadau yn y Dwyrain Canol yn ystod y flwyddyn dan sylw. Mae cynulleidfaoedd wedi gwerthfawrogi hefyd y darllediadau am ddigwyddiadau ym 'Mharth yr Ewro'. Mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd y datblygiad arfaethedig o feithrin dynesiad 'Un BBC' tuag at gasglu newyddion yn gweld rhagor o integreiddio ar Wasanaeth Byd y BBC a Newyddion y BBC yn gyffredinol, gan esgor ar ddatbygiad cadarnhaol pellach o ran ehangder casglu ac adrodd ar newyddion rhyngwladol gan y BBC.



### Portreadu a Chyflenwi'r Rhwydwaith

Gofynnodd y Cyngor i'r Ymddiriedolaeth barhau i herio'r Weithrediaeth i sicrhau gwelliannau cadarn i'r modd y portreadir cymunedau a diwylliannanu gwahanol o bob cwr o'r DU.

Mae CCC yn croesawu'n fawr agor canolfan cynhyrchu drama newydd Porth y Rhâth ym Mae Caerdydd yn ystod y cyfnod dan sylw ac yn gobeithio y bydd hyn yn gymorth i roi hwb pellach i'r portread llawn, gwir a chywir o wahanol gymunedau a hunaniaethau sydd i'w cael ar draws y DU.

### Arolwg strategaeth a setliad ffi'r drwydded

Mae'r Cyngor eisiau sicrwydd y bydd yr ymdrech i sicrhau gwerth am arian yn deg i gynulleidfaoedd ar draws holl weithgarwch y Gorfforaeth, yn enwedig wrth i benderfyniadau anodd gael eu gwneud o ganlyniad i setliad Ffi'r Drwydded.

Mae hyn yn parhau yn fater o bryder i'r Cyngor a bydd yn monitro ymateb y gynulleidfa i raglenni'r BBC yn ofalus yn dilyn toriadau i'r cyllidebau o ganlyniad i DAG.

### Ansawdd a hynodrwydd

Mae'r Cyngor yn croesawu'r ymrwymiad i ansawdd a hynodrwydd yn Arolwg Strategaeth y BBC ac am weld manteision diriaethol ar gyfer cynulleidfaoedd yng ngwasanaethau'r BBC ar lefel Rhwydwaith, cenedlaethol a lleol. Mae cynulleidfaoedd yn benodol yn dymuno gweld safonau ansawdd cyson uchel yn parhau i gael eu gwireddu mewn rhaglenni Rhwydwaith a rhaglenni teledu penodol i Gymru.

Mae CCC yn parhau i groesawu pwyslais parhaus y BBC ar ansawdd a hynodrwydd a chlywodd yn gyson gan gynulleidfaoedd am eu gwerthfawrogiad o raglenni fel *Frozen Planet* a *The Story of Wales*. Bydd yn dal ati i fonitro ansawdd a hynodrwydd yn ystod y flwyddyn i ddod.

### Cynulleidfaoedd hŷn

Cododd y Cyngor bryderon ynglŷn â'r graddau yr oedd anghenion cynulleidfaoedd hŷn yn cael eu diwallu, a sut y gellid mynd i'r afael ag unrhyw fylchau.

Mae'r Cyngor yn croesawu adroddiad diweddar Gweithrediaeth y BBC ar anghenion amrywiol sectorau gwahanol o'i chynulleidfaoedd a bydd yn parhau i ofyn i gynulleidfaoedd yn ei ddigwyddiadau estyn allan ei hun a ydynt yn fodlon ai peidio bod y BBC yn diwallu eu hanghenion.

1. Andy Carter aelod o'r Cyngor yn nigwyddiad estyn allan y CCC gyda llunwyr barn o bob rhan o Gymru.
2. Nicola Branson aelod o'r Cyngor yn nigwyddiad estyn allan y CCC gyda llunwyr barn o bob rhan o Gymru.

1



# ADRODDIAD AR BERFFORMIAD Y BBC YNG NGHYMRU YN ERBYN PWRPASAU CYHOEDDUS Y BBC

## Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Mae'r Cyngor yn credu bod Newyddion ar draws pob platfform yn hanfodol bwysig a bod Newyddion Rhwydwaith a newyddion cenedlaethol i Gymru yn cyfrannu at gyflawni'r Pwrpas hwn. Denodd *BBC Wales Today* gynulleidfa o 285,000 ar gyfartaledd ar gyfer ei raglen newyddion am 6.30pm. Roedd *Newyddion* ar S4C hefyd yn gyfrannwr pwysig i'r Pwrpas hwn, gyda chynulleidfa o 18,000 ar gyfartaledd ar gyfer ei brif fwletin newyddion, a 27,000 ar gyfer y bwletin penawdau am 8.55pm, bob gyda'r nos yn ystod yr wythnos waith. Mae cyfraniad y BBC at gyflawni'r Pwrpas hwn yn cael ei weld yn arbennig ar adegau o bryder cenedlaethol annisgwyl, fel ar adeg trychineb pwll glo'r Gleision ym mis Medi, a marwolaeth annhymig rheolwr tîm pêl droed cenedlaethol Cymru, Gary Speed, ym mis Tachwedd.

Cyfrannodd rhaglenni newyddion ar BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales yn sylweddol at y Pwrpas hwn gyda chynulleidfa o 30,000 i'r *Post Cyntaf* a 85,000 i *Good Morning Wales*. Dywedodd un cyfranogwr mewn digwyddiad estyn allan CCC am y *Post Cyntaf "mae'n dweud y cyfan sydd angen i chi ei wybod am newyddion Cymru a thu hwnt"*. Dywedodd un arall am Newyddion y BBC yn fwy cyffredinol *"gyda'r dirywiad yng nghylchrediad papurau newydd yng Nghymru, y BBC ydy'r unig le sydd ar ôl y medraf droi ato er mwyn cael newyddion amhleidiol am wleidyddiaeth er enghraifft. Mae angen i ni ddiogelu hyn. "*Darparwyd cyfleoedd pwysig i drafod materion cyfoes gan *Week in Week Out, Manylu, Eye on Wales, Pawb a'i Farn* a *Taro Naw* a thrwy hynny maent yn cyfrannu at y Pwrpas hwn, ac amlygodd *Week in Week Out* faterion pwysig yn ystod y flwyddyn fel y pryderon dybryd ynghylch arfer Prifysgol Cymru o ddilysu cymwysterau mewn colegau ar draws y byd.

2



Dywed cynulleidfaoedd yn gyson wrth y Cyngor bod darllediadau'r BBC am wleidyddiaeth yn bwysig iddyn nhw a bod darllediadau etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2011 gan y BBC, yng Nghymru ac ar y Rhwydwaith, wedi cyfrannu at eu haddysgu am bolisïau ac wedi llywio penderfyniadau. Roedd *CF99, Dragon's Eye, The Politics Show, Dau o'r Bae* a *Sunday Supplement* oll yn darparu gwybodaeth helaeth ac amrywiol am wleidyddiaeth yng Nghymru a thu hwnt. Mae blogiau Vaughan Roderick, Betsan Powys a David Cornock yn parhau i ddarparu elfen wleidyddol ychwanegol ddefnyddiol ar wleidyddiaeth yng Nghymru a San Steffan, a dywedodd un cyfranogwr mewn digwyddiad estyn allan CCC *"Maen nhw'n ardderchog ac yn cyflwyno safbwynt ffres ar straeon gwleidyddol"*. Canmolodd y Cyngor raglenni Cymraeg y BBC a ddarlledwyd ar S4C, sef 648 awr yn ystod 2010-11, a oedd yn sylweddol uwch na'r 520 o oriau yr oedd y BBC yn rhwymedig i'w darparu yn ôl statud, tra'n nodi hefyd bod cyfanswm nifer yr oriau o raglenni oedd i'w cyflenwi yn y cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012/13 yn 610 awr – gostyngiad sylweddol. Roedd y Cyngor yn falch bod 37% o gyfanswm oriau cynulleidfa S4C yn deillio o raglenni a gynhyrchwyd gan BBC Cymru – canran uchel a chymryd mai dim ond 20% o gyfanswm allbwn S4C (ac eithrio oriau *Cyw*) oedd oriau'r BBC, er bod canran uchel o'r rhain yn ystod oriau brig. Roedd y Cyngor yn croesawu'r cynnydd bychan yng nghyrhaeddiad wythnosol S4C ymysg siaradwyr Cymraeg yn ystod 2011 ac yn gobeithio y gall cydweithredu pellach yn y dyfodol rhwng y BBC ac S4C hybu cyrhaeddiad yr allbwn Cymraeg ymhellach ar deledu, radio ac ar-lein.

## Hyrwyddo addysg a dysgu

Rhoddodd CCC groeso mawr i'r deunyddiau addysgol yn Gymraeg, Gwyddeleg a Gaeleg, a ddechreuwyd fel rhan o'r gwasanaeth BBC Jam sydd bellach wedi hen ddirwyn i ben, ac a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn dan sylw. Clywodd yn gyson am y gwerth y mae cynulleidfaoedd yng Nghymru yn ei roi ar ddeunydd addysgiadol ar-lein o'r fath. Yn ei holl ddigwyddiadau estyn allan,

1



1. Un o gyfarfodydd estyn allan Cyngor Cynulleidfa Cymru.
2. Carwyn Ellis (Colorama) a Siôn Richards (Jen Jeniro) yn ystod Sesiwn Unnos Gŵyl Ddewi BBC Radio Cymru.
3. *Casualty* yw un o gynyrchiadau trigiannol canolfan cynhyrchu drama newydd Porth y Rhâth ym Mae Caerdydd.

clywodd y Cyngor gan fyfyrwyr ac eraill am bwysigrwydd addysgiadol gwefannau a rhaglenni'r BBC.

Clywodd y Cyngor gan gynulleidfaoedd eu bod yn ystyried bod dysgu anffurfiol trwy adloniant yn digwydd trwy gyfrwng rhaglenni fel *The Human Planet, The Story of Wales, Code-breakers: Bletchley Park's Lost Heroes, Egypt's Lost Cities* a *Frozen Planet*.

## Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Tra bod y Pwrpas hwn yn cwmpasu bron y cyfan o weithgarwch y BBC roedd y Cyngor yn credu bod rhai enghreifftiau neilltuol i'w gweld o ran Chwaraeon, Ffeithiol a Drama a Cherddoriaeth. Cyfeiriwyd yn benodol at BBC Three a BBC Four fel sianeli dewis cyntaf ymhlith amrywiol sectorau o'r gynulleidfa yn ystod digwyddiadau estyn allan CCC. Arhosodd cynulleidfaoedd *Pobol y Cwm* ar yr un lefel uchel â'r flwyddyn flaenorol yn dilyn 5 mlynedd o dŵf yn y gynulleidfa, ac mae'r ddau ddarllediad bellach yn denu tua 51,000 o wylwyr. Roedd y Cyngor hefyd yn credu bod gan rai o fentrau *C2* ar BBC Radio Cymru – fel y slotiau Sesiwn Unnos achlysurol, lle mae cerddorion yn dod at ei gilydd dros nos mewn stiwdio i gyfansoddi a recordio pedair cân newydd – yn cyfrannu'n sylweddol i'r Pwrpas hwn, yn ogystal ag i gerddoriaeth boblogaidd yng Nghymru.

Mae *Scrum V live, Y Clwb Rygbi* a *Sport Wales* oll yn cyfrannu at y Pwrpas hwn ac yn dangos bod arbenigedd cynhyrchu chwaraeon o fewn BBC Cymru Wales o'r radd flaenaf, ac mae *Y Clwb Rygbi* yn gyson yn darparu cynulleidfaoedd uchaf S4C. Mae CCC yn rhannu pryderon cynulleidfaoedd y gallai toriadau cyllido arwain at leihad pellach yn yr amrediad o chwaraeon a ddarlledir gan y BBC, ac y gallai hynny effeithio'n anghymesur ar rai sectorau o gymdeithas.

Cyfrannodd Cerddorfa Genedlaethol Cymru'r BBC yn sylweddol at y Pwrpas hwn gan barhau gyda'i chyfres o gyngherddau ar draws Cymru a thu hwnt, yn ogystal ag allbwn helaeth ar gyfer BBC Radio 3 a gwasanaethau eraill BBC Cymru a'r Rhwydwaith o'i chartref yn Neuadd Hoddinott y BBC ym Mae Caerdydd. Cyfrannodd y Gerddorfa hefyd at ddyddiau cerddoriaeth llwyddiannus Radio Wales. Roedd cystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd 2011 a ddarlledwyd ar BBC Two, BBC Four, BBC Radio Cymru, BBC Radio Wales a BBC Radio 3 yn un o uchafbwyntiau diwylliannol 2011 fel ag yr oedd darllediad y BBC o gynhyrchiad National Theatre Wales, *The Passion*, o Bort Talbot.





Roedd y Cyngor yn credu bod darllediadau'r BBC o'r Eisteddfod Genedlaethol yn gyfraniad sylweddol at y Pwrpas hwn, gydag arlwy gynhwysfawr ar BBC Radio Cymru, S4C ac ar-lein.

Un mater o bryder a godwyd gan gynulleidfaoedd gyda CCC oedd bod rhai yn teimlo bod *"y BBC yn chwilio am ddewisiadau diogel sydd wedi ennill eu tir yn hytrach na thalent newydd - mae wedi colli ei asgwrn cefn braidd"*. Bydd CCC yn cadw golwg ar y mater hwn dros y misoedd i ddod.

### Adlewyrchu'r DU, ei chenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

Roedd y Cyngor yn falch bod cydweithredu agosach yn digwydd rhwng timau newyddion Rhwydwaith y BBC a BBC Cymru Wales yn ddiweddar yn dilyn Arolwg Amhleidioldeb Ymddiriedolaeth y BBC ar ddarlledu newyddion a pholisi o'r cenhedloedd datganoledig gan Newyddion Rhwydwaith, a theimlai bod Cymru wedi'i chynrychioli yn well ar BBC News. Fodd bynnag, mae'n rhannu barn cynulleidfaoedd bod cryn dipyn o ffordd i fynd cyn y bydd allbwn Newyddion Rhwydwaith yn adlewyrchu y cyfoeth o bolisïau amrywiol sydd bellach yn bodoli yng ngwahanol genhedloedd y DU. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i fonitro'r cynnydd yn y cyswllt hwn. Mae'n credu'n gryf ei bod cyn bwysiced, os nad yn bwysicach, bod Cymru yn cael ei hadlewyrchu iddi ei hun ag y mae iddi gael ei phortreadu yn ehangach ar draws y DU. Gwelir hyn yn y pryder a fynegir ym mywyd cyhoeddus Cymru ac yn ystod digwyddiadau estyn allan y Cyngor bod swm a rhychwant rhaglenni Saesneg cyffredinol i Gymru yn parhau i ostwng. Dywed cynulleidfaoedd wrth y Cyngor eu bod yn credu bod nifer yr oriau o raglenni teledu Saesneg a gynhyrchir gan BBC Cymru Wales i gynulleidfaoedd yng Nghymru yn isel er gwaethaf y ffaith bod y rhaglenni a gynhyrchir yn cael effaith sylweddol ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Fel y dywedodd un cyfranogwr mewn digwyddiad estyn allan CCC *"Dwi ddim yn hapus gyda lefel y ddarpariaeth drama, yn enwedig drama yn darlunio bywyd Cymreig bob dydd, ar y teledu na'r radio, a dwi'n teimlo y dylid gwella hyn"*. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod y BBC yn cael ei werthfawrogi i raddau uwch yng Nghymru nag yng nghenhedloedd eraill y DU, ond ni ddylid defnyddio hynny fel rheswm dros



beidio â mynd i'r afael â'r mater hwn sydd yn parhau i fod o bryder i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

## Dod â'r DU i sylw'r byd a'r byd i sylw'r DU

Dywedodd cyfranogwyr yn gyson wrth y Cyngor yn ei ddigwyddiadau estyn allan am y balchder oedd gan bobl yng Nghymru yn llwyddiant rhyngwladol rhaglenni Rhwydwaith a gynhyrchid gan BBC Cymru Wales megis *Doctor Who*, llwyddiant rhaglenni fel *Upstairs Downstairs, Sherlock, Crimewatch,* a'r cyffro bod *Casualty* nawr yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru. Soniwyd yn gadarnhaol am *Frozen Planet* ym mhob un o ddigwyddiadau estyn allan y Cyngor.

Roedd adroddiadau gohebwyr y BBC o sawl rhan o'r byd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gynulleidfaoedd ar draws Cymru. Amlygodd digwyddiad estyn allan CCC gyda phobl ifanc o dras De Asiaidd a'r Dwyrain Canol yr ymddiriedaeth a oedd ganddynt yn adroddiadau'r BBC am y 'Gwanwyn Arabaidd'. Dywedodd un cyfranogwr, *"os ydy'r BBC yn ei ddweud, mae'n wir"*.

Mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd y pwyslais cynyddol ar ddynesiad 'Un BBC' o gasglu newyddion yn gwella'r ddarpariaeth newyddion rhyngwladol gan y BBC yn fwy fyth.

## Darparu budd technolegau a gwasanaethau cyfathrebu sy'n datblygu i'r cyhoedd

Mae'r Cyngor yn croesawu'n gynnes y gwaith a wnaeth Adran Dosbarthu'r BBC yn ystod y flwyddyn dan sylw er mwyn cynyddu argaeledd BBC Radio Wales ar FM i 80% o boblogaeth Cymru, ond mae'n parhau yn hynod o bryderus bod argaeledd BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales ar DAB i 40% o'r boblogaeth yn annigonol, o'i gymharu ag argaeledd gorsafoedd Radio Rhwydwaith y BBC yng Nghymru i 80% o'r boblogaeth.

Croesawodd y Cyngor agor y ganolfan cynhyrchu drama Diffiniad Uchel (HD) ym Mhorth y Rhâth ym Mae Caerdydd ym mis Mawrth 2012, ac ymrwymiad y BBC i gyflwyno rhaglenni penodol i Gymru gan BBC Cymru ar BBC One HD o'r hydref eleni. Mae'n rhannu pryderon dybryd cynulleidfaoedd nad yw cynlluniau cyfredol y BBC yn cynnwys rhaglenni penodol ar gyfer y cenhedloedd ar BBC Two HD. Mae'r Cyngor yn credu y byddai gan hyn oblygiadau difrifol iawn i'r Pwrpas o Gynnal Dinasyddiaeth a Chymdeithas Sifil yng Nghymru.

1. Canolfan cynhyrchu drama Porth y Rhâth adeg ei hagor ym mis Mawrth 2012.
2. Cadeirydd y BBC, yr Arglwydd Patten, yn ystod ymweliad â Phorth y Rhâth, Caerdydd, adeg ei hadeiladu.

2



# BLAENORIAETHAU'R GYNULLEIDFA AR GYFER 2012/13

## Cynnal Dinasyddiaeth a Chymdeithas Sifil

Dywed cynulleidfaoedd wrth CCC eu bod yn croesawu'r ffaith bod Newyddion Rhwydwaith yn nodi perthnasedd straeon i genhedloedd y DU yn fwy cyson na chynt ond pery'r Cyngor yn bryderus nad oes rhagor o straeon cymharol, sy'n amlygu gwahaniaethau polisi a chyfraith ar draws cenhedloedd y DU, yn cael eu darlledu.

Mae'r Cyngor yn teimlo y gallai cymharu dynesiadau gwahanol tuag at bolisi cyhoeddus yng ngwledydd y DU fod o fudd mawr i gynulleidfaoedd. Dywed pobl eu bod nhw angen gwybod am y newidiadau polisi, ac os ydynt yn berthnasol iddyn nhw. Mae'r Cyngor yn clywed yn gyson hefyd bod cynulleidfaoedd yn teimlo eu bod wedi'u hamddifadu pan nad yw straeon yn cael eu cyfoethogi er mwyn amlinellu'r amrywiol ddynesiadau tuag at bolisi cyhoeddus yng nghenhedloedd gwahanol y DU e.e. yng nghyd-destun diwygiadau i'r GIG. Clyw'r Cyngor na ddylai hyn fod yn fater i Newyddion a Materion Cyfoes yn unig gan fod llawer o gynulleidfaoedd yn cael eu haddysgu'n fwy effeithiol trwy'r modd y mae dramâu ac operâu sebon yn delio gyda materion cyfoes nag y maent trwy wylio neu wrando ar allbwn ffeithiol.

## Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae yna ganfyddiad ymysg cynulleidfaoedd bod gostyngiad yn nifer y rhaglenni sy'n adlewyrchu bywyd yng Nghymru i bobl Cymru, yn enwedig o ran drama teledu, a radio, a theledu Saesneg yn gyffredinol, ac mae CCC yn rhannu'r pryder hwn. Mae hyn i'w deimlo'n arbennig o ddwys yn dilyn cyhoeddiadau DAG am ostyngiad arfaethedig cyffredinol o 16% yng nghyllideb BBC Cymru Wales, sy'n dod ar ôl 5 mlynedd o arbedion *Gwelliannau Parhaus*.

Mae Adroddiad Ofcom yn 2010 ar y Farchnad Cyfathrebu yn cefnogi'r canfyddiad hwn ac yn dweud *"ar £25miliwn, roedd cyfanswm gwariant gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys rhediad cyntaf ar y teledu yn benodol ar gyfer gwylwyr yng Nghymru i lawr 13% yn 2010, y gostyngiad blwyddyn ar ôl blwyddyn mwyaf ymysg y pedair cenedl. Mae cyfanswm gwariant yng Nghymru wedi gostwng 33% dros y pum mlynedd ddiwethaf, o'i gymharu â gostyngiad o 31% ar gyfer y DU gyfan."* Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ddweud bod *"nifer yr oriau a gynhyrchwyd yn benodol i wylwyr yng Nghymru yn 2010 i lawr 3% o 1,036 oriau yn 2009, o'i*



1.+2.

Digwyddiad estyn allan y CCC gyda sipsiwn a thrafaelwyr yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

*gymharu â gostyngiad o 24% ers 2005."* Tra bod y cytundeb diweddar rhwng y BBC ac S4C ynghylch cyllido'r sianel yn y dyfodol o Ffi'r Drwydded wedi'i groesawu gan nifer yng Nghymru, mae pryder yn parhau ynghylch darlledu yn Saesneg o Gymru ac am Gymru. Mae CCC yn credu ei bod yn hanfodol diogelu a chryfhau gwasanaethau craidd y BBC sy'n cael eu hanelu'n benodol at Gymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae cynulleidfaoedd yng Nghymru yn cefnogi'n frwd strategaeth y BBC i symud cynyrchiadau teledu allan o Lundain ac wrth eu boddau o weld lleoliadau cyfarwydd ar allbwn y Rhwydwaith. Mae'n croesawu ymrwymiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol i gyrraedd y targed *Allan o Lundain* o 17% ynghynt nag a ragwelwyd, ac i fynd y tu hwnt i'r targed hwn, ond nid yw'n credu y bydd hyn yn llenwi'r bwlch a adawyd gan y gostyngiad yn y rhaglenni a wneir yng Nghymru ar gyfer Cymru.

## Adlewyrchu'r DU, ei chenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

Mae'r Cyngor yn croesawu'r cynnydd cadarnhaol a gafwyd hyd yma ym mhortreadu cenhedloedd a chymunedau'r DU gyfan, ond dywed cynulleidfaoedd bod rhagor i'w wneud. Clywodd y Cyngor bod prinder pobl hŷn (a phrinder menywod hŷn yn enwedig), yn gyfranwyr a chyflwynwyr, ar y teledu o hyd. Er hynny roedd cydnabyddiaeth bod dramâu parhaus (cyfresi sebon) yn cynnig portread mwy cadarnhaol o fenywod hŷn cryf na bron i unrhyw *genre* arall. Mae sipsiwn a theithwyr hefyd yn teimlo mai prin iawn yw'r portreadu cadarnhaol na chywir a geir o'u cymuned. Mae cynulleidfaoedd yn teimlo hefyd bod dramâu teledu o'r UDA yn darparu portread mwy cadarnhaol o bobl yn eu harddegau a'u hugeiniau nag a wna teledu'r DU, sydd yn eu barn nhw yn portreadu pobl ifanc mewn modd negyddol. Mae'r Cyngor yn gofyn i'r Ymddiriedolaeth barhau i herio Gweithrediaeth y BBC i sicrhau datblygiadau pendant a chadarnhaol o ran portreadu'r gwahanol gymunedau a diwylliannau sy'n bodoli ar draws y DU mewn ffordd lawn, gywir a gwir, er mwyn sicrhau bod y weledigaeth a fynegwyd gan gyn Gyfarwyddwr BBC Vision, Jana Bennett, o leoli rhaglenni *"rhywle yn hytrach nag yn nunlle"* yn cael ei wireddu'n llawn.

Mae'r Cyngor yn croesawu cynigion DAG y dylid darlledu canran uwch o raglenni teledu wedi'u cynhyrchu yng Nghymru ar gyfer Cymru ar y Rhwydwaith ac mae'n credu y gallai hyn gyfrannu'n sylweddol tuag at gyflawni'r Pwrpas hwn.

## Partneriaethau

Dywed cynulleidfaoedd yn rheolaidd wrth y Cyngor Cynulleidfa am bwysigrwydd partneriaethau. Mae cynulleidfaoedd wedi croesawu'r cynnydd a gafwyd yn

2



nhraws-hyrwyddo cynnwys S4C a BBC Radio Cymru o ganlyniad i gytundeb partneriaeth 2010 rhwng y ddau ddarlledwr. Mae partneriaethau gyda sefydliadau addysgol hefyd, fel yr hyn a welwyd ym Mhrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam – lle mae'r Brifysgol a'r BBC yn rhannu eiddo a chyfleusterau – neu'r bartneriaeth rhwng y Brifysgol Agored yng Nghymru a BBC Cymru ar gyd-gomisiynu *The Story of Wales*, yn cael eu hystyried yn gadarnhaol. Dylid croesawu ac annog partneriaethau oddi mewn i'r BBC hefyd, fel yr un rhwng y Rhwydwaith a chynyrchiadau lleol yn y ganolfan cynhyrchu drama ym Mhorth y Rhâth a agorwyd yn ddiweddar. Dylid ystyried a chroesawu, am resymau creadigol, cymdeithasol ac addysgiadol, gyfleoedd pellach ar gyfer creu partneriaethau lle mae hynny'n bosib.

Mae'r Cyngor yn croesawu'r cytundeb newydd gydag S4C yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Llywodraeth San Steffan yn 2010 ar gyllido S4C o ffi'r drwydded yn y dyfodol ac mae'n gofyn i'r Ymddiriedolaeth bwysleisio wrth Weithrediaeth y BBC bwysigrwydd hyn o ran cyfrannu'n sylweddol at gyflawni cyfrifoldebau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn Gymraeg a sicrhau bod y gynulleidfa Gymraeg yn derbyn darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus llawn ar bob platfform, ar draws pob *genre*, ac o'r ansawdd uchaf.

## Mynediad Cyffredinol a chyflwyno manteision technolegau a gwasanaethau cyfathrebu sy'n datblygu i'r cyhoedd

Dywed cynulleidfaoedd wrth y Cyngor eu bod yn croesawu yn wresog gwella argaeledd BBC Radio Wales ar FM, a bod diffyg argaeledd dwy orsaf radio genedlaethol Cymru ar DAB yn parhau'n fater o bryder mawr. Mae cynigion DAG ar gyfer BBC Two HD heb raglenni penodol i Gymru yn ofid gwirioneddol i gynulleidfaoedd fel ag y mae i'r Cyngor, gan y gallasai hyn gyfyngu ar allu cynulleidfaoedd yng Nghymru i weld rhaglenni gwreiddiol o Gymru, neu danseilio'r teimlad ehangach o undod o fewn gwledydd Prydain trwy bod lefel uwch o raglenni penodol i Gymru ar BBC One.

Dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i roi pwysau ar Weithrediaeth y BBC yng nghyswllt y materion hyn.

1


1.+2. Cyfarfod estyn allan gydag aelodau Mwslemaidd ifanc o'r gynulleidfa.

2


# CYNGOR CYNULLEIDFA CYMRU



Elan Closs Stephens, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol Cymru y BBC



Nicola Branson



Andrew Carter



Bethan Dawin



Aled Jones Griffith



Robert Humphreys



Pamela Hunt



Ruth Marks



Alexandra McMillan



Suma Pugh



Teresa Rees



Ceri Stradling

# CYSYLLTU

Os oes gennych gwestiwn, sylw ynteu gwyn ynghylch rhaglenni ynteu wasanaethau BBC Cymru Wales, ynteu unrhyw agwedd arall o waith y BBC, yna cysylltwch â'n huned Gwasanaethau Cynulleidfaoedd. Mae'r holl adborth a dderbyniwn yn cael ei nodi a'i ddosbarthu'n gyson at y rheolwyr a'r timau golygyddol. Rhif ffôn: 03703 500 700

Mae'r llinellau ar agor yn ystod dyddiau'r wythnos waith rhwng 9.30am-7.30pm (ac eithrio Gwyliau Banc). Nid yw galwadau i rifau 0370, sef cyfradd ar gyfer y DU-gyfan, yn costio mwy na galwadau i rifau daearyddol 01/02. Gall galwadau gael eu recordio at ddibenion hyfforddi.

Gwefan:

**www.bbc.co.uk/cymru/gwybodaeth**

Ysgrifennwch at:
Gwasanaethau'r Gynulleidfa
BBC Cymru Wales
Bangor
LL57 2BY

Cwynion: Am ragor o wybodaeth ynghylch proses gwynion y BBC a chael gwybod sut i gwyno ar-lein, ewch i ymweld â **www.bbc.co.uk/cwynion**

Designed by www.luminous.co.uk

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London W1A 1AA
bbc.co.uk
© BBC 2012